DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 24 NOVEMBER 2022, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ND on Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 18 Tachwedd 2022

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 8.66 mewn costau argraffu

# GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | |
| 2 | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| 3 | **Cofnodion** *(Tudalennau 9 - 34)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 fel cofnod cywir.* | | |
| 4 | **Cwestiynau Cyhoeddus**<br><br>*Clywed y cwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cyhoedd o flaen llaw.* | 4.30 pm | 5 mins |
| 5 | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.35 pm | 5 mins |
| 6 | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.40 pm | 5 mins |
| 7 | **Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2022-2023** *(Tudalennau 35 - 64)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 4.45 pm | 15 mins |
| 8 | **Datganiad o Gyfrifon 2021-2022, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg** *(Tudalennau 65 - 122)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau* | 5.00 pm | 15 mins |
| 9 | **Adroddiad Diweddaru'r Cyfansoddiad**<br>*(Tudalennau 123 - 244)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 5.15 pm | 15 mins |
| 10 | **Defnydd aelodau o TG y Cyngor ar gyfer Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol** *(Tudalennau 245 - 252)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 5.30 pm | 15 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Datganiadau'r Cabinet** *(Tudalennau 253 - 294)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 5.45 pm | 45 mins |
| | **Toriad (15 mun)** | | |
| **12** | **Hysbysiad o Gynnig 1**<br><br>*CYNIGIWYD GAN: Y Cynghorydd Peter Littlechild*<br>*EILIWYD GAN: Y Cynghorydd Calum Davies*<br><br>• *llongyfarch tîm pêl-droed dynion Cymru ar gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958, wrth ddathlu'r twf a'r cynnydd yng ngêm y merched;*<br>• *diolch i'r tîm am eu hymdrechion yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg;*<br>• *nodi'r manteision iechyd a lles niferus o chwarae pêl-droed a chwaraeon tîm eraill;*<br>• *cydnabod y gwaith cymunedol anhygoel mae clybiau chwaraeon yn ei wneud yn eu cymunedau yn ystod ac yn dilyn mesurau y cyfnod clo Covid.*<br>• *cydnabod yr anallu i glybiau chwaraeon cymunedol gyfarfod a chodi arian yn ystod y cyfnodau clo a ddisbyddodd eu hadnoddau ariannol.*<br>• *cydnabod bod darparu caeau a chyfleusterau ar gyfer pêl-droed a chwaraeon eraill yn hanfodol i'r agenda Cryfach, Tecach, Gwyrddach, ac nad oes rhaid i glybiau pêl-droed iau a mini dalu ffioedd cae nac ystafelloedd newid;*<br>• *o'r farn mai gwaddol priodol i ddathlu cymhwyster Cwpan y Byd Cymru fyddai ymestyn y polisi hwn i'r holl dimau pêl-droed i ddefnyddio caeau ac ystafelloedd newid y* Cyngor am flwyddyn;<br>    • *galw ar y cabinet i gyflwyno adroddiad er mwyn ystyried hyn cyn Cyllideb 2023/24; ac*<br>    • *dymuno pob llwyddiant i dîm pêl-droed Cymru* | 6.45 pm | 30 mins |
| **13** | **Hysbysiad o Gynnig 2**<br><br>*CYNIGIWYD GAN: Y Cynghorydd Ali Ahmed*<br>*EILIWYD GAN: Y Cynghorydd Malika Kaaba*<br><br>*Dinas gosmopolitanaidd yw Caerdydd. Wedi'i gyrru gan dwf y diwydiant glo, a wnaeth Gaerdydd yn un o borthladdoedd pwysicaf y byd, daeth y ddinas yn gartref i rai o'r cymunedau mewnfudwyr cynharaf ym Mhrydain.*<br><br>*Gyda hanes balch o groeso a noddfa sy'n parhau hyd heddiw, mae Caerdydd yn dathlu amrywiaeth ei thrigolion, sy'n cyfrannu at ein cyfoethogi cymdeithasol ac economaidd.* | 7.15 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Yn anffodus, fel y amlygodd gwaith y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, mae hiliaeth yn parhau i effeithio profiadau dydd i ddydd llawer o bobl yn y ddinas. Fis Tachwedd yw Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, felly mae'n arbennig o briodol tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu Mwslimiaid yng Nghaerdydd.*<br><br>*Mae'r ddinas yn gartref i boblogaeth Fwslimaidd fawr o dros 23,000. Mae Mwslimiaid yng Nghymru hefyd yn dod o amrywiaeth fawr o gefndiroedd ethnig. Mae aelodau'r Gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd yn rhan annatod o gyfansoddiad y ddinas, ac maen nhw'n chwarae rhan enfawr ym mhob agwedd ar fywyd Caerdydd gan gynnwys GIG, busnesau, addysg, adran gyfreithiol ac mewn gwleidyddiaeth ond er gwaethaf hyn., mae ein cymuned Fwslimaidd yn profi Islamoffobia gan rai pobl.*<br><br>*Yn ôl adroddiad i droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr diweddaraf y Swyddfa Gartref, cafodd Mwslimiaid eu targedu mewn 50% o'r holl achosion troseddau casineb crefyddol a gofnodwyd yn 2019/20 - ffigwr sy'n gyson ag adroddiadau'r blynyddoedd blaenorol - sy'n golygu eu bod yn profi troseddau casineb ar sail crefyddol mwy nag unrhyw grŵp crefyddol arall.*<br><br>*Ar 27 Tachwedd 2018, cynhyrchodd y GHS (y Grŵp Hollbleidiol Seneddol) ar Fwslimiaid Prydain y diffiniad gweithiol o Islamoffobia yn dilyn ymgynghoriad dwy flynedd.*<br><br>*Darllena'r diffiniad fel a ganlyn:*<br>***"Mae Islamoffobia wedi'i wreiddio mewn hiliaeth ac mae'n fath o hiliaeth sy'n targedu mynegiant o Fwslemiaeth neu Fwslemiaeth tybiedig."***<br><br>*Mae'r cynnig hwn yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r diffiniad hwn, ac i gefnogi Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, a fydd yn canolbwyntio ar y cyfraniadau cadarnhaol y mae Mwslimiaid yn eu gwneud yn ein dinas.*<br><br>***Cynnig***<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn credu:*<br><br>• *bod mabwysiadu diffiniad o Islamoffobia yn hanfodol i fynd i'r afael ag Islamoffobia mewn modd wedi'i dargedu ac effeithiol.*<br>• *Heb ddiffiniad o Islamoffobia, ni all person nodi sut mae Islamoffobia yn dangos ei hun a sut mae'n gweithredu ac felly, ni all ddyfeisio strategaethau ystyrlon i fynd i'r afael ag ef.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ***Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:***<br><br>• *Mabwysiadu diffiniad y GHS o Islamoffobia, ynghyd â chanllawiau esboniadol y Glymblaid yn erbyn Islamoffobia's i ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol o Islamoffobia.*<br>• *Gweithio gydag ysgolion Caerdydd, cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus, Heddlu De Cymru, a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill i fynd i'r afael ag Islamoffobia ar lefel leol, i gefnogi'r gwaith ehangach sy'n ymateb i argymhellion Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.*<br>• *Cymryd camau pellach i fynd i'r afael ag Islamoffobia a chodi ymwybyddiaeth ohoni, megis trefnu hyfforddiant Islamoffobia, cynnal digwyddiadau lleol ar y broblem Islamoffobia, yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia (Tachwedd)*<br>• *Cydweithio â'r gymuned Fwslimaidd leol i herio Islamoffobia ac i ddiwallu eu hanghenion fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.*<br>• *Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol eraill fel yr ASau lleol i godi ymwybyddiaeth o Islamoffobia yn y Senedd ac annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu diffiniad GHS o Islamoffobia* | | |
| **14** | **Cwestiynau ar Lafar**<br><br>*Clywed cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 7.45 pm | 80 mins |
| **15** | **Materion Brys** | | |
| | **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir** | | |
| **16** | **Aelodaeth Pwyllgorau** *(Tudalennau 295 - 298)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 9.10 pm | |
| **17** | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion** *(Tudalennau 299 - 302)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **18** | **Penodiad Stadiwm y Mileniwm CCC** *(Tudalennau 303 - 304)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **19** | **Cwestiynau Ysgrifenedig** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |